Pecyn Dogfennau

Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire
County Council

sirgar.llyw.cymru
carmarthenshire.gov.wales

DYDD IAU, 16 MEDI 2021

AT: HOLL AELODAU'R PWYLLGOR TRWYDDEDU

YR WYF DRWY HYN YN EICH GALW I FYNYCHU **RHITH-CYFARFOD** O'R **PWYLLGOR TRWYDDEDU** A GYNHELIR AM **10.00 YB, DYDD IAU, 23AIN MEDI, 2021** ER MWYN CYFLAWNI'R MATERION A AMLINELLIR AR YR AGENDA ATODEDIG.

Wendy Walters

PRIF WEITHREDWR

AILGYLCHWCH OS GWELWCH YN DDA

Swyddog Democrataidd:	**Janine Owen**
Ffôn (Llinell Uniongyrchol):	**01267 224030**
E-bost:	**JanineOwen@sirgar.gov.uk**

Wendy Walters Prif Weithredwr, *Chief Executive,*
Neuadd y Sir, Caerfyrddin. SA31 1JP
County Hall, Carmarthen. SA31 1JP

PWYLLGOR TRWYDDEDU

14 AELOD

Y GRŴP PLAID CYMRU – 7 AELOD

1.	**Y Cynghorydd**	**Mansel Charles**
2.	**Y Cynghorydd**	**Tyssul Evans**
3.	**Y Cynghorydd**	**Ken Howell**
4.	**Y Cynghorydd**	**Dorian Phillips**
5.	**Y Cynghorydd**	**Susan Phillips**
6.	**Y Cynghorydd**	**Eirwyn Williams**
7.	**Y Cynghorydd**	**Elwyn Williams [Is-Gadeirydd]**

Y GRŴP LLAFUR – 4 AELOD

1.	**Y Cynghorydd**	**Suzy Curry**
2.	**Y Cynghorydd**	**Penny Edwards**
3.	**Y Cynghorydd**	**Amanda Fox**
4.	**Y Cynghorydd**	**Andre McPherson**

Y GRŴP ANNIBYNNOL – 3 AELOD

1.	**Y Cynghorydd**	**Irfon Jones**
2.	**Y Cynghorydd**	**Jim Jones**
3.	**Y Cynghorydd**	**Edward Thomas [Cadeirydd]**

DYLAI AELODAU FOD YN YMWYBODOL NA CHANIATEIR IDDYNT OFYN I AELODAU O FEWN EU GRWPIAU EU HUNAIN I'W CYNRYCHIOLI MEWN CYFARFODYDD O'R PWYLLGOR YMA

AGENDA

1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

2. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL.

3. LLOFNODI YN GOFNOD CYWIR COFNODION CYFARFOD YR IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU "A" A GYNHALIWYD AR 7 GORFFENNAF 2021. 5 - 8

4. LLOFNODI YN GOFNOD CYWIR COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR TRWYDDEDU A GYNHALIWYD AR 13 GORFFENNAF 2021 9 - 14

5. GORCHYMYN I'R CYHOEDD ADAEL Y CYFARFOD

NI DDYLID CYHOEDDI'R ADRODDIAD SY'N YMWNEUD Â'R MATERION CANLYNOL GAN EU BOD YN CYNNWYS GWYBODAETH EITHRIEDIG FEL Y'I DIFFINIWYD YM MHARAGRAFF 12 O RAN 4 O ATODLEN 12A I DDEDDF LLYWODRAETH LEOL 1972 FEL Y'I DIWYGIWYD GAN ORCHYMYN LLYWODRAETH LEOL (MYNEDIAD AT WYBODAETH) (AMRYWIO) (CYMRU) 2007 GAN EI FOD YN CYNNWYS GWYBODAETH AM UNIGOLYN PENODOL.

OS BYDD Y PWYLLGOR AR ÔL CYNNAL PRAWF LLES Y CYHOEDD YN PENDERFYNU YN UNOL Â'R DDEDDF, I YSTYRIED Y MATER HYN YN BREIFAT, GORCHMYNNIR I'R CYHOEDD ADAEL Y CYFARFOD YN YSTOD TRAFODAETH O'R FATH.

6. MR JASON OWEN JENKINS - CAIS I ADNEWYDDU TRWYDDED YRRU DDEUOL CERBYD HACNAI/HURIO PREIFAT 15 - 18

7. MR DEWI PENRY BOWEN - CAIS I ADNEWYDDU TRWYDDED YRRU DDEUOL CERBYD HACNAI/HURIO PREIFAT 19 - 22

8. MR ROBERT FISHER - TRWYDDED YRRU DDEUOL CERBYD HACNAI/HURIO PREIFAT 23 - 26

9. MR DAVID IAN ELIAS - CAIS I ADNEWYDDU TRWYDDED YRRU DDEUOL CERBYD HACNAI/HURIO PREIFAT 27 - 30

10. MR GLYNDWR PHILLIPS - TRWYDDED YRRU DDEUOL CERBYD HACNAI/HURIO PREIFAT 31 - 34

11. MISS DEBORAH THERESA MATTHEWS - CAIS I ADNEWYDDU TRWYDDED YRRU DDEUOL CERBYD HACNAI/HURIO PREIFAT 35 - 38

12.	**MR WILLIAM JOHN SPREADBURY - TRWYDDED YRRU DDEUOL CERBYD HACNAI/HURIO PREIFAT**	39 - 42
13.	**MR JASON LEE DAVIES - CAIS I ADNEWYDDU TRWYDDED YRRU DDEUOL CERBYD HACNAI/HURIO PREIFAT**	43 - 46
14.	**MR ABDULLA ALYUFRUSI - CAIS AM DRWYDDED YRRU DDEUOL CERBYD HACNAI/HURIO PREIFAT**	47 - 50

IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU A

Dydd Mercher, 7 Gorffennaf 2021

YN BRESENNOL: Y Cynghorydd J.M. Charles (Cadeirydd)

Y Cynghorwyr:
J.K. Howell a/ac E.G. Thomas

Hefyd yn bresennol fel sylwedydd:
Y Cynghorydd D. Phillips

Yr oedd y swyddogion canlynol yn gwasanaethu yn y cyfarfod:
R. Edgecombe, Rheolwr y Gwasanaethau Cyfreithiol
R. Edmunds, Rheolwr Materion Defnyddwyr a Busnes
K. Smith, Swyddog Trwyddedu
J. Owen, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd
K. Thomas, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

Remote Meeting - , - 2.00 - 2.35 yp

1. DATGAN BUDDIANNAU PERSONOL.

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau personol.

2. CAIS AM DRWYDDED SAFLE UAS CAR CARE, UNED 7, THE FOOTHOLD ENTERPRISE VILLAGE, BURRY ROAD, LLANELLI, SA15 2DS

Rhoddodd Rheolwr y Gwasanaethau Cyfreithiol wybodaeth i bawb a oedd yn bresennol am drefn y cyfarfod.

Rhoddwyd gwybod i'r Is-bwyllgor fod cais wedi dod i law gan UAS Car Care am drwydded safle mewn perthynas ag Uned 7, Pentref Menter Foothold, Burry Road, Llanelli SA15 2DS i ganiatáu'r canlynol:-

Cyflenwi Alcohol – dydd Llun tan ddydd Sul 12:00 – 23:00

Ffilmiau - dydd Llun tan ddydd Sul 10:00 – 23:00

Oriau Agor - dydd Llun tan ddydd Sul 09:00 - 00:00

Nododd yr Is-bwyllgor fod y dogfennau canlynol ynghlwm wrth yr adroddiad:-

Atodiad A – copi o'r cais
Atodiad B – sylwadau a gyflwynwyd gan Heddlu Dyfed-Powys
Atodiad C - sylwadau a gyflwynwyd gan bobl eraill

O ran sylwadau Heddlu Dyfed-Powys, y manylir arnynt yn Atodiad B, nododd yr Is-bwyllgor fod yr ymgeisydd wedi cytuno arnynt yn llawn. Nodwyd nad oedd gan y gwrthwynebwyr, sef Cyngor Tref Llanelli, neb yn bresennol i'w cynrychioli yn y cyfarfod.

Dywedodd yr ymgeisydd wrth yr Is-bwyllgor mai diben y cais oedd ategu'r siop goffi bresennol sydd ar agor ar y safle ar benwythnosau dim ond pan nad oedd y busnes garej yn weithredol, er bod y cais wedi gofyn am drwydded am 7 diwrnod yr wythnos. Cyfeiriodd at y gwrthwynebiadau a gyflwynwyd gan Gyngor Tref Llanelli a dywedodd fod y safle trwyddedig agosaf yng nghlwb golff Machynys a bod yr eiddo preswyl agosaf tua 10 munud i ffwrdd ar droed. Roedd Heddlu Dyfed-Powys wedi awgrymu bod nifer o amodau ynghlwm wrth y drwydded a chytunwyd ar y rheiny gyda'r heddlu. Cadarnhaodd ei fod hefyd wedi cysylltu ag Is-adran Iechyd yr Amgylchedd y Cyngor Sir a bod ei bryderon wedi cael sylw.

Rhoddwyd cyfle i'r holl bartïon holi'r ymgeisydd ynghylch ei sylwadau.

Ar hynny

PENDERFYNODD YR IS-BWYLLGOR YN UNFRYDOL gynnal sesiwn preifat er mwyn cael cyngor cyfreithiol yn unol â Pharagraff 16 o Atodlen 12A i'r Ddeddf Llywodraeth Leol.

Ar ôl y toriad ailymgynullodd yr Is-bwyllgor i gyhoeddi ei benderfyniad ac ar ôl ystyried y paragraffau perthnasol o Ddatganiad Polisi Trwyddedu yr Awdurdod Trwyddedu a'r cyfarwyddyd a gyhoeddwyd gan yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS) a chan y Swyddfa Gartref

PENDERFYNWYD, ar ôl ystyried y dystiolaeth a oedd wedi ei rhoi gerbron yr Is-bwyllgor, fod y cais yn cael ei ganiatáu, a hynny'n unol â'r amodau y cytunwyd arnynt gyda Heddlu Dyfed-Powys.

RHESYMAU:
Wrth benderfynu ar y cais, roedd y ffeithiau canlynol yn hysbys i'r Is-bwyllgor:

1. Nid oedd y safle wedi cael trwydded o'r blaen.
2. Ni chyflwynwyd unrhyw dystiolaeth o droseddau ac anhrefn sy'n gysylltiedig ag alcohol ar y safle neu yn y cyffiniau.
3. Nid oedd unrhyw un o'r awdurdodau cyfrifol yn gwrthwynebu caniatáu trwydded.
4. Roedd yr ymgeisydd wedi cytuno ar yr amodau trwydded y gofynnwyd amdanynt gan yr heddlu.
5. Nid oedd y safle yn agos at safleoedd preswyl.

Yr oedd yr Is-bwyllgor wedi rhoi pwys ar farn yr awdurdodau cyfrifol.

Roedd yr Is-bwyllgor yn cydnabod bod yn rhaid i'w benderfyniad gael ei seilio ar dystiolaeth wirioneddol, ac nad oedd pryderon nac ofnau ynghylch yr hyn a allai ddigwydd pe caniateid trwydded, lle nad oedd tystiolaeth o'r fath i'w hategu, yn faterion y gallant roi ystyriaeth briodol iddynt.

Er ei fod yn cydnabod pryderon gwirioneddol y Cyngor Tref, roedd yr Is-bwyllgor o'r farn fod y diffyg tystiolaeth a gyflwynwyd i gefnogi'r pryderon hynny yn golygu na ellid cyfiawnhau gwyro oddi wrth farn yr heddlu yn yr achos penodol hwn.

Yn unol â hynny, roedd yr Is-bwyllgor yn fodlon na fyddai caniatáu'r cais, yn unol â'r amodau trwydded y cytunwyd arnynt, yn tanseilio'r amcanion trwyddedu.

_____ _____

CADEIRYDD **DYDDIAD**

Mae'r dudalen hon yn wag yn fwriadol

PWYLLGOR TRWYDDEDU

DYDD MAWRTH, 13EG GORFFENNAF, 2021

YN BRESENNOL: Y Cynghorydd E.G. Thomas [Cadeirydd]

Y Cynghorwyr:
J.M. Charles, S.A. Curry, W.T. Evans, J.K. Howell, H.I. Jones, A.S.J. McPherson, B.D.J. Phillips, J.S. Phillips, J.E. Williams a D.E. Williams

Yr oedd y swyddogion canlynol yn gwasanaethu yn y cyfarfod:
Mr R. Edgecombe – Rheolwr y Gwasanaethau Cyfreithiol
Mr R. Edmunds – Rheolwr Materion Defnyddwyr a Busnes
Mr J. Power – Uwch Swyddog Trwyddedu
Mrs M. Evans Thomas – Prif Swyddog Gwasanaethau Democrataidd [Cymerwr Nodiadau]
Ms E. Bryer – Swyddog Gwasanaethau Democrataidd [Cynorthwyo]
Mrs S. Rees – Cyfieithydd ar y Pryd

Hefyd yn bresennol:
Mr D. Bizby - Cynrychiolydd Pencadlys Awdurdod Heddlu Dyfed Powys

Cyfarfod Rhithwir : 10.00 yb - 11.05 yb

1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr Cynghorwyr P. Edwards, A. Fox a T.J. Jones.

2. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau personol.

3. LLOFNODI YN GOFNOD CYWIR COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR TRWYDDEDU A GYNHALIWYD AR 26AIN O FAI, 2021

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL lofnodi cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Trwyddedu a gynhaliwyd ar 26 Mai 2021, gan eu bod yn gywir.

4. DIRPRWYO AWDURDOD I SWYDDOGION

Bu'r Pwyllgor yn ystyried adroddiad oedd yn cynnig, pan wneir ceisiadau am drwydded cerbyd sy'n cydymffurfio'n llawn â holl amodau'r drwydded ac eithrio nad yw capasiti'r injan yn llai na 1200cc, bod awdurdod dirprwyedig yn cael ei roi i swyddogion ddelio â'r ceisiadau hyn, dim ond os ydynt yn fodlon bod y dechnoleg injan newydd o safon sy'n gwneud y gwahaniaeth rhwng yr injan dan sylw ac injan 1200cc yn gymharol ddibwys.

Atgoffwyd y Pwyllgor bod rhaid i ymgeiswyr ymddangos gerbron y Pwyllgor Trwyddedu ar hyn o bryd pan wneir cais am eithriad o Amod 13(e) o Amodau Trwyddedu'r Cyngor ar gyfer Cerbydau Hurio Preifat neu 15(e) o Amodau Trwyddedu'r Cyngor ar gyfer Cerbydau Hacnai. Mae'r amodau hyn yn nodi na chaiff maint injan y cerbyd fod yn llai na 1200cc.

Wrth gyflwyno gwell technolegau injans, roedd y fasnach dacsis yn ceisio trwyddedu cerbydau mwy effeithlon sy'n gydnaws â'r amgylchedd. Gall y cerbydau hyn fod â chapasiti injan o lai na 1200cc ond byddai allbwn pŵer gwirioneddol y cerbyd yn cyfateb i 1200cc neu fwy.

PENDERFYNODD YN UNFRYDOL roi awdurdod dirprwyedig i swyddogion i ymdrin â cheisiadau ar y telerau a nodir yn yr adroddiad.

5. ADOLYGU'R POLISIAU SY'N YMWNEUD A CHERBYDAU HACNAI, CERBYDAU PREIFAT, GYRWYR A GWEITHREDWYR

Bu'r Pwyllgor yn ystyried adroddiad yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf mewn perthynas â dwy ddogfen a gyhoeddwyd yn ddiweddar sy'n effeithio ar drwyddedu Cerbydau Hacnai a Hurio Preifat.

Mae polisïau ac amodau Sir Gaerfyrddin sy'n ymwneud â Cherbydau Hacnai a Cherbydau Hurio Preifat, Gyrwyr a Gweithredwyr wedi bod ar waith ers nifer o flynyddoedd. Gan fod safonau statudol newydd wedi'u cyhoeddi gan yr Adran Drafnidiaeth ynghyd ag argymhellion newydd gan Lywodraeth Cymru, cynigiwyd bod Cyngor Sir Caerfyrddin yn adolygu ei bolisïau a'i amodau i ymgorffori'r safonau a'r argymhellion newydd hyn.

Ym mis Gorffennaf 2020 cyhoeddodd yr Adran Drafnidiaeth Safonau Cerbydau Tacsis a Hurio Preifat Statudol gan ganolbwyntio ar amddiffyn plant ac oedolion sy'n agored i niwed. Dywedodd yr Adran Drafnidiaeth, yn dilyn ymgynghoriad manwl, ei bod yn amlwg bod consensws bod angen safonau gofynnol craidd cyffredin i reoleiddio'r sector tacsis a cherbydau hurio preifat yn well.

Mae safonau'r Adran Drafnidiaeth yn cael effaith yng Nghymru er bod y cyfrifoldeb am bolisi tacsis a cherbydau hurio preifat wedi'i ddatganoli i Lywodraeth Cymru. Fodd bynnag, pe bai Llywodraeth Cymru yn cyflwyno deddfwriaeth i reoleiddio'r materion hyn, ni fyddai safonau'r Adran Drafnidiaeth yn berthnasol mwyach.

Ym mis Mawrth 2021, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Ganllaw i Gysoni Trwyddedu Tacsis a Cherbydau Hurio Preifat yng Nghymru. Mae'r ddogfen hon yn dilyn papur gwyn Llywodraeth Cymru 'Gwella Trafnidiaeth Gyhoeddus' a gyhoeddwyd yn 2018. Nod yr argymhellion yn y ddogfen oedd darparu 'atebion cyflym' i wella cysondeb safonau trwyddedu a gwella diogelwch y cyhoedd ledled Cymru. Roedd yr argymhellion yn sail i Lywodraeth Cymru eu datblygu ymhellach i greu safonau cenedlaethol.

Amlinellwyd pum rheswm gan Lywodraeth Cymru i fabwysiadu'r argymhellion, diogelwch y cyhoedd yw'r cyntaf. Dylai'r cyhoedd allu disgwyl i yrrwr trwyddedig fod yn gymwys, yn onest, yn ddiogel ac yn ddibynadwy. Cafwyd nifer o adroddiadau yn ystod y blynyddoedd diwethaf mewn rhannau eraill o'r wlad sy'n ymwneud â chamfanteisio ar blant sydd wedi'i gwneud yn glir bod trefniadau gwan ac aneffeithiol ar gyfer trwyddedu tacsis yng Nghymru a Lloegr wedi rhoi'r cyhoedd mewn perygl. Roedd yr argymhellion newydd hyn yn gobeithio unioni hyn drwy wella diogelwch y cyhoedd ledled Cymru. Roedd hyn hefyd yn cynnwys diogelwch cerbydau, ynghyd â gwella'r safonau ar gyfer gweithredwyr cerbydau hurio preifat. Roedd rhesymau eraill dros fabwysiadu'r argymhellion yn cynnwys gwell cysondeb

o ran safonau ledled Cymru, gorfodi wedi'i gysoni, mwy o hygyrchedd ar gyfer cerbydau yng Nghymru a safonau gwell o ran gwasanaeth cwsmeriaid.

Cynigiwyd felly y dylid cynnwys y polisïau tacsis mewn un ddogfen fawr sy'n cwmpasu'r holl bolisïau ac amodau atodol eraill a oedd yn ymwneud â thrwyddedu tacsis a cherbydau hurio preifat. Y gobaith yw y byddai hyn yn symleiddio materion i ymgeiswyr a deiliaid trwydded gan y byddai'r holl ddogfennau angenrheidiol ar gael mewn un lle.

Bydd safonau statudol yr Adran Drafnidiaeth ac argymhellion Llywodraeth Cymru ar gyfer Cysoni Trwyddedu Tacsis a Cherbydau Hurio Preifat yn arwain at lawer o newidiadau i Bolisïau cyfredol yr Awdurdod.

I grynhoi, roedd y prif newidiadau fel a ganlyn:-

Gyrwyr

- Gofyniad i yrwyr ymuno â'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) a chael gwiriad DBS bob 6 mis;
- Mabwysiadu Côd Ymddygiad Gyrwyr Llywodraeth Cymru;
- Diweddaru'r Amodau Gyrwyr Cerbydau Hurio Preifat yn unol ag argymhellion Llywodraeth Cymru;
- Grŵp 2 Safon Feddygol;
- Mabwysiadu'r Polisi Collfarnau IOL.

Cerbydau

- Gofyniad i berchenogion cerbydau gael gwiriad DBS blynyddol.
- Gwiriad o gofnodion troseddol tramor;
- Mabwysiadu polisi Llywodraeth Cymru ar deledu cylch cyfyng a Systemau Fideo Pwynt Gwrthdaro (VIPS) / Camerâu Cerbyd mewn tacsis a cherbydau hurio preifat;
- Gweithredu argymhellion Llywodraeth Cymru ar gyfer amodau hygyrchedd ar berchenogion cerbydau tacsis a cherbydau hurio preifat.

Cyffredinol

- Ymrwymo i adolygu Datganiad Polisi Tacsi bob 5 mlynedd yn unol â Safonau Statudol yr Adran Drafnidiaeth;
- Ffurflenni cais safonedig ledled Cymru.

Nodwyd y byddai adroddiad pellach gyda Pholisi Tacsi wedi'i ddiweddaru yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor maes o law, cyn ymgynghori â phartïon â diddordeb.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL nodi'r adroddiad diweddaru.

6. GORCHYMYN I'R CYHOEDD ADAEL Y CYFARFOD

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL, yn unol â Deddf Llywodraeth Leol 1972, fel y'i newidiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007, orchymyn i'r cyhoedd adael y cyfarfod tra oedd yr eitemau canlynol yn cael eu hystyried, gan fod yr adroddiadau'n cynnwys gwybodaeth eithriedig fel y'i diffiniwyd ym mharagraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf.

7. TRWYDDED YRRU DDEUOL CERBYD HACNAI/HURIO PREIFAT - MISS SAMANTHA BERYL GRIFFITHS

Rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor fod Miss Samantha Beryl Griffiths o 3 Talyclun, Llangennech yn meddu ar Drwydded Yrru Ddeuol ar gyfer Cerbyd Hacnai/Hurio Preifat gan yr Awdurdod a bod mater wedi codi ynghylch ei thrwydded.

Bu'r Pwyllgor yn cyfweld â Miss Griffiths ynghylch y mater hwnnw.

Argymhellodd yr Uwch-Swyddog Trwyddedu fod Miss Griffiths yn cael rhybudd ynghylch ei ymddygiad yn y dyfodol.

Ar hynny

PENDERFYNODD Y PWYLLGOR YN UNFRYDOL gynnal sesiwn preifat er mwyn cael cyngor cyfreithiol yn unol â Pharagraff 16 o Atodlen 12A i Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

Ar ôl y toriad, ailymgynullodd y Pwyllgor i roi ei benderfyniad.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL, yn unol â chanllawiau'r Cyngor, fod Miss Samantha Beryl Griffiths yn cael rhybudd ynghylch ei ymddygiad yn y dyfodol.

8. CAIS AM DRWYDDED YRRU DDEUOL CERBYD HACNAI/HURIO PREIFAT - MR JASON DANIEL BAKER

Hysbyswyd y pwyllgor nad oedd Mr Baker yn bresennol ac nid oedd wedi cysylltu â swyddogion i esbonio nad oedd yn gallu bod yn bresennol. Gohiriwyd y cais hwn gan y pwyllgor yn y cyfarfod diwethaf gan nad oedd Mr Baker yn gallu bod yn bresennol.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL y dylid gofyn i Mr Baker ymddangos gerbron y Pwyllgor yn y cyfarfod nesaf er mwyn ystyried ei gais ac y dylid ei gynghori pe bai'n methu â mynychu yna bydd ei gais yn cael ei ystyried yn ei absenoldeb.

9. CAIS AM DRWYDDED YRRU DDEUOL CERBYD HACNAI/HURIO PREIFAT - MR JOSHUA JAMES DAVIES

Bu'r Pwyllgor yn ystyried y cais gan Mr Joshua James Davies o 36 Banc-y-Ddraenen, Rhydaman, am Drwydded Yrru Ddeuol ar gyfer Cerbyd Hacnai/Hurio Preifat.

Bu'r Pwyllgor yn cyfweld â Mr Davies ynghylch ei gais.

Argymhellodd yr Uwch-swyddog Trwyddedu fod cais Mr Davies yn cael ei ganiatáu a'i fod yn cael rhybudd ynghylch ei ymddygiad yn y dyfodol.

Ar hynny

PENDERFYNODD Y PWYLLGOR YN UNFRYDOL gynnal sesiwn preifat er mwyn cael cyngor cyfreithiol yn unol â Pharagraff 16 o Atodlen 12A i Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

Ar ôl y toriad, ailymgynullodd y Pwyllgor i roi ei benderfyniad.

PENDERFYNWYD caniatáu cais Mr Joshua James Davies am Drwydded Yrru Ddeuol ar gyfer Cerbyd Hacnai/Hurio Preifat a rhoi rhybudd iddo ynghylch ei ymddygiad yn y dyfodol.

Y rhesymau
Ar sail y dystiolaeth a gyflwynwyd, roedd y Pwyllgor yn fodlon bod yr ymgeisydd yn rhywun addas a phriodol i feddu ar drwydded.

10. CAIS AM DRWYDDED YRRU DDEUOL CERBYD HACNAI/HURIO PREIFAT - MR DAVID RHYDIAN THOMAS.

Bu'r Pwyllgor yn ystyried cais gan Mr David Rhydian Thomas o 76 Bro Einon, Llanybydder, am Drwydded Yrru Ddeuol ar gyfer Cerbyd Hacnai/Hurio Preifat.

Bu'r Pwyllgor yn cyfweld â Mr Thomas ynghylch ei gais.

Argymhellodd yr Uwch-swyddog Trwyddedu fod cais Mr Thomas yn cael ei ganiatáu a'i fod yn cael rhybudd ynghylch ei ymddygiad yn y dyfodol.

Ar hynny

PENDERFYNODD Y PWYLLGOR YN UNFRYDOL gynnal sesiwn preifat er mwyn cael cyngor cyfreithiol yn unol â Pharagraff 16 o Atodlen 12A i Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

Ar ôl y toriad, ailymgynullodd y Pwyllgor i roi ei benderfyniad.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL ganiatáu cais Mr David Rhydian Thomas am Drwydded Yrru Ddeuol ar gyfer Cerbyd Hacnai/Hurio Preifat a rhoi rhybudd iddo ynghylch ei ymddygiad yn y dyfodol.

Y rhesymau
Ar sail y dystiolaeth a gyflwynwyd, roedd y Pwyllgor yn fodlon bod yr ymgeisydd yn rhywun addas a phriodol i feddu ar drwydded.

11. CAIS AM DRWYDDED YRRU DDEUOL CERBYD HACNAI/HURIO PREIFAT - MR ABDULLA ALYUFRUSI.

Gofynnodd swyddogion i ystyriaeth o'r cais hwn gael ei gohirio tan y cyfarfod nesaf.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL ohirio ystyried cais Mr Abdulla Alyufrusi tan gyfarfod nesaf y Pwyllgor.

_____ _____

CADEIRYDD **DYDDIAD**

Mae'r dudalen hon yn wag yn fwriadol

Yn rhinwedd paragraff(s) 12 o Rhan 4 o Atodlen 12A% o ddeddf Llywodraeth Leol 1972 fel y'i diwygiwyd Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007

Document is Restricted

Mae'r dudalen hon yn wag yn fwriadol

Yn rhinwedd paragraff(s) 12 o Rhan 4 o Atodlen 12A% o ddeddf Llywodraeth Leol 1972 fel y'i diwygiwyd Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007

Document is Restricted

Mae'r dudalen hon yn wag yn fwriadol

Yn rhinwedd paragraff(s) 12 o Rhan 4 o Atodlen 12A% o ddeddf Llywodraeth Leol 1972 fel y'i diwygiwyd Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007

Document is Restricted

Mae'r dudalen hon yn wag yn fwriadol

Yn rhinwedd paragraff(s) 12 o Rhan 4 o Atodlen 12A% o ddeddf Llywodraeth Leol 1972 fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007

Document is Restricted

Mae'r dudalen hon yn wag yn fwriadol

Yn rhinwedd paragraff(s) 12 o Rhan 4 o Atodlen 12A% o ddeddf Llywodraeth Leol 1972 fel y'i diwygiwyd Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007

Document is Restricted

Mae'r dudalen hon yn wag yn fwriadol

Yn rhinwedd paragraff(s) 12 o Rhan 4 o Atodlen 12A% o ddeddf Llywodraeth Leol 1972 fel y'i diwygiwyd Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007

Document is Restricted

Mae'r dudalen hon yn wag yn fwriadol

Yn rhinwedd paragraff(s) 12 o Rhan 4 o Atodlen 12A% o ddeddf Llywodraeth Leol 1972 fel y'i diwygiwyd Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007

Document is Restricted

Mae'r dudalen hon yn wag yn fwriadol

Yn rhinwedd paragraff(s) 12 o Rhan 4 o Atodlen 12A% o ddeddf Llywodraeth Leol 1972 fel y'i diwygiwyd Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007

Document is Restricted

Mae'r dudalen hon yn wag yn fwriadol

Yn rhinwedd paragraff(s) 12 o Rhan 4 o Atodlen 12A% o ddeddf Llywodraeth Leol 1972 fel y'i diwygiwyd Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007

Document is Restricted

Mae'r dudalen hon yn wag yn fwriadol